

31 Mai 2018

PIER GARTH BANGOR

PROSIECT ADFER – CAU PEN DRAW'R PIER

Mae Cyngor Dinas Bangor wrthi'n trwsio ac adnewyddu uwchstrwythur Pier y Garth sydd angen gwaith brys.

O ganlyniad i broblemau lechyd a Diogelwch ac adroddiad peirianeg strwythurol anffafriol, bydd ardal pen pellaf y Pier, a adnabyddir fel y *Pierhead* ar gau i bawb o 4 Mehefin 2018 ymlaen gan fod y strwythur yn cael ei ystyried yn beryglus i'r cyhoedd.

Yn anffodus bydd y Pafiliwn Te yn cau o ganlyniad ac ni fydd caniatâd i'r cyhoedd fynd i ben pellaf y Pier nes bod y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau. Mae'n debyg o aros ar gau am gyfnod o naw mis.

Mae Cyngor y Ddinas yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra yn ystod y prosiect adeiladu hwn, ond mae'r gwaith yma'n angenrheidiol er mwyn sicrhau parhad a diogelwch y Pier i genedlaethau'r dyfodol gael ei fwynhau.